# North Wales Community Speed Watch Newsletter

Issue 1 August 2016

## Welcome

Welcome to the first ever North Wales Community Speed Watch Newsletter. This Newsletter will be published bi-monthly hitting your Inbox the first week of every even month. It is intended to keep you informed and up-to-date in relation to what is happening with Speed Watch here in North Wales and indeed anything interesting within the wider Community Speed Watch community.

What I would like to see is groups and group members also contributing to this newsletter where we can share best practices etc.

Having settled into my new post I have some plans for the future, these include:

- Prepare a training course and power point presentation and after listening to comments about previous training sessions there will be practical experience of using a radar device.
- Inviting all CSW members to St Asaph base to see what happens to the info we send in and a look 'behind the scenes'. We would also be able to take a look at the Go Safe Vans and their equipment.
- This CSW Newsletter to keep everyone informed.
- As many members as possible attending meetings at regular intervals where we can all get together to discuss matters and exchange ideas; because of the size and geography of the Force these would be held in different parts of the Force area at different times of the year so that at least one meeting a year will take place close to where you live.
- I am looking to attend 999 days and the like to help promote CSW and recruit new members, I would welcome assistance from local groups in that endeavour.
- Linking with OWL to promote CSW at events and locations they visit.
- Helping groups source funding for equipment they require.
- Alerting Police Officers and PCSOs of the existence of the Community Speed Watch groups in their areas and what they are trying to do and that their efforts are supported by North Wales Police.

As I said previously my post is a voluntary one, but having been given a dedicated mobile phone I will be able to monitor emails easily and reply to them quite quickly my aim is to respond to all emails within 24 hours. I look forward to working with you all as we try to make the roads in our communities safer for everyone that use them.

## Equipment

I know some of you have equipment 'on loan' from North Wales Police whilst others have been loaned equipment by their local Council.

There are a number of alternatives that can be purchased but one of the cheapest (and two have been purchased by Buckley Town Council) is the Bushnell. I have used the Bushnell and it is a lightweight and very easy to use device and at approximately £100 not an expensive device, certainly one to consider. I know that there are a number of Community Speed Watch schemes in the UK successfully using this device.

**Please be aware that North Wales Police, Go Safe or the Community Speed Watch scheme do not endorse any specific product.**

## How are we doing?

To date a total of 105 letters have been sent out to errant motorists, currently these are split into the Council areas as follows:

| Area | Sessions | Letters |
|---|---|---|
| Denbighshire | 4 | 18 |
| Flintshire | 10 | 59 |
| Wrexham | 6 | 28 |
| **Totals** | **20** | **105** |

By the time the next newsletter is published in October I hope that we can include figures from Anglesey, Gwynedd and Conwy.

All six Councils within the North wales Police Area are actively supporting the Community Speed Watch as indeed are many of the Councillors who have themselves joined the scheme. With all this support I'm sure the scheme here in North Wales will go from strength to strength.

## And finally for now…

If you are interested in joining me to help promote the CSW scheme at different events, please e-mail me as soon as possible.

Additionally to assess the interest in a visit to the unit here at St Asaph please let me know by 1st September 2016.

*John Morris*

John.Morris@nthwales.pnn.police.uk

Mobile: 07917 265233

# Newyddlen Gwylio Cyflymder Cymunedol Gogledd Cymru

Rhifyn 1 Awst 2016

## Croeso

Croeso i Newyddlen gyntaf Gwylio Cyflymder Cymunedol Gogledd Cymru. Bydd y Newyddlen yn cael ei chyhoeddi bob dau fis ac yn cyrraedd eich mewnflwch yr wythnos gyntaf bob yn ail fis o fis Awst ymlaen . Y bwriad yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am yr hyn sy'n digwydd gyda Gwylio Cyflymder yma yng Ngogledd Cymru ac yn wir unrhyw beth diddorol sy'n digwydd o fewn y gymuned Gwylio Cyflymder Cymunedol ehangach.

Fy ngobaith yw y bydd grwpiau a'u haelodau'n cyfrannu at y newyddlen hon fel y gallwn rannu arferion gorau ac ati.

Gan fy mod erbyn hyn wedi setlo i mewn i fy swydd newydd mae gennyf rai cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- Paratoi cwrs hyfforddi a chyflwyniad PowerPoint ac ar ôl gwrando ar sylwadau am y sesiynau hyfforddiant blaenorol, bydd profiad ymarferol o ddefnyddio dyfais radar yn cael ei gynnwys.
- Gwahodd pob aelod GCC i Lanelwy i weld beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a anfonwn i mewn a golwg 'tu ôl i'r llenni'. Byddem hefyd yn gallu cymryd golwg ar Faniau Gan Bwyll a'u hoffer.
- Newyddlen GCC er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i bawb.
- Cymaint o aelodau ag sydd bosibl yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn trafod materion a chyfnewid syniadau; oherwydd maint a daearyddiaeth Gogledd Cymru byddai'r rhain yn cael eu cynnal mewn gwahanol rannau o'r ardal ar wahanol adegau o'r flwyddyn fel y bydd o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yn cael ei gynnal yn agos at lle'r ydych yn byw.
- Yr wyf yn bwriadu bod yn bresennol ar ddyddiau 999 i recriwtio aelodau newydd a buaswn yn croesawu cymorth gan grwpiau lleol gyda'r gwaith hwnnw.
- Cysylltu gyda OWL i hyrwyddo GCC mewn digwyddiadau a lleoliadau y maent yn ymweld â nhw.
- Helpu grwpiau i ddod o hyd i ffynonellau o gyllid ar gyfer unrhyw offer sydd ei angen arnynt.
- Rhoi gwybod i Swyddogion Heddlu a SCCH am fodolaeth grwpiau Gwylio Cyflymder Cymunedol yn eu hardaloedd a'r hyn y maent yn ceisio ei wneud a bod eu hymdrechion yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gogledd Cymru.

Fel y dywedais eisoes mae fy swydd yn un wirfoddol, ond ar ôl cael ffôn symudol pwrpasol rwyf yn gallu monitro negeseuon e-bost yn rhwydd ac ymateb yn eithaf cyflym - fy nod yw ymateb i bob e-bost o fewn 24 awr. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyd wrth i ni geisio gwneud y ffyrdd yn ein cymunedau yn fwy diogel i bawb sy'n eu defnyddio.

## Offer

Rwy'n gwybod bod rhai ohonoch chi wedi cael offer 'ar fenthyg' gan Heddlu Gogledd Cymru tra bod eraill wedi cael benthyg offer gan eu Cyngor lleol.

Mae yna sawl math arall o offer y gellid ei brynu ond un o'r rhataf (ac mae Cyngor Tref Bwcle wedi prynu dau o'r rhain) yw'r Bushnell. Rwyf wedi defnyddio'r Bushnell ac mae'n ysgafn ac yn hawdd iawn i'w defnyddio a dim rhy ddrud chwaith ar bris o tua £100 – yn sicr un i'w ystyried. Gwn fod nifer o Gynlluniau Gwylio Cyflymder Cymunedol yn y DU yn defnyddio'r offer Bushnell yn llwyddiannus

**Dylid bod yn ymwybodol nad yw Heddlu Gogledd Cymru, Gan Bwyll na'r Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol yn cymeradwyo unrhyw gynnyrch penodol**

## Sut 'da ni'n gwneud?

Hyd yma mae cyfanswm o 105 o lythyrau wedi eu hanfon at fodurwyr, fel a ganlyn:

| Ardal | Sesiynau | Llythyrau |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 4 | 18 |
| Sir y Fflint | 10 | 59 |
| Wrecsam | 6 | 28 |
| **Cyfanswm** | **20** | **105** |

Rwy'n gobeithio cynnwys ffigyrau Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy yn y newyddlen nesaf a fydd yn cael ei chyhoeddi fis Hydref.

Mae pob un o'r chwe Chyngor yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi'r Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol, felly hefyd llawer o'r Cynghorwyr sydd wedi ymuno â'r cynllun eu hunain. Gyda'r holl gefnogaeth hon rwy'n siŵr y bydd y cynllun yma yng Ngogledd Cymru yn mynd o nerth i nerth.

## Ac yn olaf am y tro...

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â mi i helpu i hyrwyddo'r cynllun GCC yn Niwrnod Agored HGC neu unrhyw ddigwyddiad arall, anfonwch e-bost ataf cyn gynted â phosibl. Yn ychwanegol, er mwyn asesu'r diddordeb mewn ymweliad â'r uned yma yn Llanelwy rhowch wybod i mi erbyn Medi 1af 2016.

*John Morris*

John.Morris@nthwales.pnn.police.uk

Symudol : 07917 265233